Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLl174**

**Amseru: Cyn gynted â phosibl**

**Teitl: Penodiad Caffael Sancus Solutions Cyf**

**Categori Penderfyniad / Effaith ar Faes Busnes: Ansawdd Gwasanaeth**

**Crynodeb Gweithredol:**

Fel rhan o'r rhaglen Gwella Unplygrwydd yr Heddlu, mae'r systemau cwynion heddlu a disgyblu ar gyfer plismona yng ngham 3 diwygio ar hyn o bryd. Bydd cam 3 yn effeithio ar y ffordd y mae pob ymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol, camymddwyn a chwynion yn cael eu trin.

Mae'r cam hwn hefyd yn rhoi rôl gryfach i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) o fewn y system gwyno ac yn darparu tri model gwahanol. Penderfynodd CHTh weithredu Model 1 ac roedd angen iddo benderfynu sut y byddai hynny'n cael ei reoli o safbwynt ymarferol.

**Argymhelliad:**

Cefndir

Ar ddydd Gwener 10 Ionawr, cyflwynodd y Swyddfa Gartref ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r ffordd y mae cwynion sy'n cael eu gwneud yn erbyn yr heddlu'n cael eu trin a gwella'r system ddisgyblu ar gyfer swyddogion. Mae'r newidiadau, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2020, yn sicrhau y gellir ymdrin â chwynion yn gyflym, effeithiol a chymesur, er budd y cyhoedd a'r heddlu.

Yn ogystal â symleiddio'r system gwyno, mae'r newidiadau'n golygu y bydd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fwy o rôl er mwyn cynyddu annibyniaeth a gwella'r ffordd y mae cwynion yn cael eu trin. O 1 Chwefror 2020, os yw cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, ac mae unigolyn yn anhapus â'r canlyniad neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'i gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd yr adolygiad yn ystyried pa un ai a yw'r canlyniad neu'r ffordd y cafodd ei gŵyn ei thrin yn rhesymol a chymesur.

**Argymhelliad (parhad):**

Yn bwysig, mae'r diwygiadau'n anelu i wneud y system ddisgyblu'n fwy cymesur ac annog mwy o bwyslais o lawer ar ddysgu drwy gamgymeriadau. Mae'r Swyddfa Gartref wedi gweithio'n agos â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cymdeithasau staff ac eraill er mwyn datblygu pecyn cynhwysfawr o welliannu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mwy o rôl ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a fydd yn cryfhau annibyniaeth.
- Mesurau pellach ar gyfer cynyddu effeithiolrwydd ac annibyniaeth Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o ran ymchwilio i bob mater sensitif a difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu.
- Canolbwyntio'r system ddisgyblu ffurfiol ar achosion o dorri safonau proffesiynol a fyddai'n arwain at gamau disgyblu ffurfiol, gan alluogi rheolwyr llinell i ganolbwyntio ar wella ymddygiadau a dysgu unigol mewn ymateb i faterion ymddygiad lefel is – yn seiliedig ar Broses Adolygu Arfer Adlewyrchol newydd.
- Ceir darpariaethau newydd ar gyfer gwella effeithlonrwydd a thryloywder ymchwiliadau camymddwyn.
- Gwella tryloywder apeliadau yn erbyn canfyddiadau camymddwyn, drwy ddisodli'r swyddog heddlu sydd wedi ymddeol presennol fel aelod o'r panel â pherson lleyg annibynnol a chyflwyno darpariaethau newydd ar gyfer gwella amseroldeb ac effeithlonrwydd gweithdrefnau.

Yn dilyn y cofnod penderfyniad mewn perthynas â Deddf Diwygio'r Heddlu 2019 – Cytundeb Dewis 1 (http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/8964/c-users-65015-desktop-dll-dec-s.pdf), penderfynodd CHTh weithredu Dewis 1 h.y. ar gyfer y cwynion hynny sy'n cael eu cofnodi o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn gyfrifol am yr Adolygiadau Cwyn.

Ystyriodd SCHTh y byddai angen swydd ymgynghorol er mwyn cefnogi Comisiynydd yr Heddlu (CHTh) i gyflawni ei swydd. Byddai'r rôl hon yn ystyried pob Adolygiad Cwyn a dderbynnir gan SCHTh, ac yn paratoi ymateb awgrymedig a rhesymwaith ategol i'w cyflwyno i'r CHTh; er mwyn i'r CHTh wneud penderfyniad terfynol ynglŷn â'r canlyniad. Ystyriwyd sawl dewis, gan gynnwys:

1. Aelod o SCHTh i gyflawni'r rôl hon fel rhan o ddyletswyddau ei swydd;
2. Cyflogi aelod staff newydd;
3. Rhoi'r gwaith i ddarparwr annibynnol.

Wrth ystyried dewisiadau 1 a 2, ceisiwyd ffigurau gan yr Adran Safonau Proffesiynol er mwyn darogan lefelau galw ochr yn ochr â'r gwir allbwn wrth ystyried Adolygiadau Cwyn. Dadansoddwyd y data hwn er mwyn deall pa un ai a fyddai angen cyflogi rhywun ar sail rhan amser/llawn amser ac ati, a'r raddfa gyflog. Oherwydd y newid yn y ddeddfwriaeth o 1 Chwefror 2020, pennwyd nad oedd modd i SCHTh ddarogan y lefelau Adolygiadau Cwyn a dderbynnir oherwydd fe all fod cynnydd yn y ffigurau oherwydd y newid mewn prosesau ac ati.

<u>Cydweithio</u>

Ar sail gychwynnol, cytunwyd mai Opsiwn 3, o bosibl, oedd y dewis mwyaf ymarferol yn ariannol. Hefyd, byddai'n rhoi amser i ddeall lefel y galw a'r allbwn gwaith,

**Argymhelliad (parhad):**

cyn gofyn i aelod staff SCHTh i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn/cyflogi unigolyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Daeth SCHTh Gwent a Gogledd Cymru i'r un casgliad, a chytunwyd y byddai'r 3 SCHTh yn cychwyn proses dendro ar y cyd mewn perthynas â Dewis 3 – arweiniodd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y broses hon.

Trosolwg Caffael

Hysbysebwyd y broses gaffael drwy gwerthwchigymru, gyda dogfennau tendro ar gael ar eDendroCymru. Cafodd 5 cyflenwr fynediad i'r ymarfer tendro, gyda dau gyflenwr yn cyflwyno ymateb.

Cyflawnwyd y gwerthusiad drwy'r Arf Wobrwyo ac roedd y panel yn cynnwys cynrychiolaeth o'r tri SCHTh yng Nghymru gyda goruchwyliaeth gan Adran Gaffael Heddlu Dyfed-Powys. Sgoriwyd pobl cyflenwr ar yr un set o gwestiynau, gyda phob sgôr a roddwyd yn cynnwys rhesymwaith, a gwblhawyd gan bob cynrychiolydd SCHTh. Ar ddiwedd y broses, ystyriodd yr Adran Gaffael y sgorau a'r argymhelliad yw gwobrwyo'r cytundeb i gwmni Sancus Solutions Cyfyngedig. Mae'r cyfnod cytundeb am 12 mis, gyda dewis i'w estyn am 12 mis arall. Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, a gellir ei ddiwygio os yw pob parti'n cytuno.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Er mwyn monitro allbwn Sancus Solutions, gosodwyd y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

1. Cyfanswm yr adolygiadau a gynhaliwyd
2. Cyfanswm yr adolygiadau a gofnodwyd o ran y Gymraeg
3. Cyfanswm yr adolygiadau cymhleth/uwch/sylfaenol – mae angen y crynodeb canlynol ar gyfer pob categori:

   a) Math/Categori Cwyn pob Adolygiad
   b) Yr amser a gymerwyd i gwblhau pob adolygiad – er mwyn cyfrif amser cyfartalog
   c) Cyfanswm yr adolygiadau a arweiniodd at y canlyniadau canlynol:

      - **Cyfeiriad at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu**
      - **Ymchwilio**
      - **Adferwyd o dan Baragraff 28ZA** (Y mathau o argymhellion a ddisgrifir ar gyfer dibenion paragraff 28ZA(1) o Atodlen 3 (argymhellion gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu gorff plismona lleol)(27) yw— (a)argymhelliad y dylid ymddiheuro wrth yr achwynydd dan sylw; (b)argymhelliad y dylid dychwelyd unrhyw eiddo a atafaelwyd wrth yr achwynydd; (c)argymhelliad y dylid cyfeirio mater i'w drin o dan y broses adolygu arfer adlewyrchol; (ch)unrhyw argymhelliad arall, heblaw awgrym y dylid talu iawndal, y mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r corff plismona lleol (fel sy'n gallu digwydd) yn ystyried sy'n briodol ar gyfer adfer yr anfodlonrwydd a fynegwyd gan yr achwynydd dan sylw).
      - **Heb ei gynnal**

   ch) Cyfanswm yr adolygiadau a gytunwyd/gwyrdrowyd gan y CHTh

**Argymhelliad (parhad):**

Y Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd. Maent yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn eu hardaloedd heddlu unigol.

Maent yn awr (ers 1 Chwefror 2020) yn gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth cwynion ac ymddygiad newydd sy'n deillio o ddiwygiadau unplygrwydd yr heddlu 2019. Elfen allweddol o'r diwygiadau yw cynnal adolygiadau annibynnol o gwynion heddlu lle mae'r Comisiynydd wedi'i farnu fel y corff apêl perthnasol ac mae'r gŵyn yn gofyn yn ffurfiol am adolygiad mewn perthynas â thriniaeth yr Heddlu o'i gŵyn.

Mae hyn yn ffurfio rhan o flaenoriaethau'r Comisiynydd h.y. cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a chysylltu â chymunedau.

Cynnig

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n awgrymu bod y cytundeb yn cael ei roi i Sancus Solutions Cyf am gyfnod o 12 mis, gyda dewis i'w estyn am 12 mis arall. Yn ogystal, ymgymerir â'r adolygiad o'r dewis Model 1 bob 18 mis o'r dyddiad gweithredu.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater ac yn cymryd y penderfyniad arfaethedig mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad Mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Nodaf y wybodaeth yn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol)

**Llofnod:**  **Dyddiad: 03/04/20**